

Adroddiad monitro'r cynllun iaith Gymraeg

1 Ebrill 2019–31 Mawrth
2020

Gwybodaeth amdanom ni

Ein gweledigaeth yw sicrhau nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol dros 700,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwagedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, byddwn yn ymchwilio pan fydd gofal nyrsio neu ofal bydwreigiaeth yn mynd o chwith – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfya pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth weithio a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydym yn gwneud ein hunain yn fwy amlwg er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i siarad o blaid amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

Llywodraethu ein gwaith iaith Gymraeg

Mae aelodau'r Cyngor, y tîm Gweithredol a'r holl weithwyr yn chwarae rhan yn y gwaith o gyflawni ein cynllun iaith Gymraeg. Nodir y cyfrifoldebau allweddol isod:

- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu a goruchwylio ein strategaeth gyffredinol.
- Y tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am weithredu ein strategaeth ac am bennu polisïau mewnol a chynlluniau busnes sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun iaith Gymraeg.
- Cyfarwyddwr Strategaeth a Mewnwelediad sy'n bennaf gyfrifol am gyflawni'r cynllun iaith Gymraeg, a'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio Proffesiynol yw cyfarwyddwr arweiniol Cymru.
- Y tîm Polisi a Deddfwriaeth sy'n gyfrifol am fonitro newid deddfwriaethol a'r effaith ar ein proses cynllunio busnes yng nghyswllt cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

- Y tîm Rheoleiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) sy'n gyfrifol am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chefnogi ein gweithwyr i deimlo'n hyderus ac yn gymwys wrth gydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg.

Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Yn unol ag Adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, rydym yn glir ynghylch yr angen i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Cymeradwywyd ein cynllun iaith Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011.

Nod yr adroddiad monitro blynyddol hwn yw crynhoi ein cynnydd o ran gweithredu ein cynllun iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg. Ceir adroddiad cryno (yn seiliedig ar gwestiynau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg) yn Atodiad 1.

Rydym wedi ymrwmo i gydymffurfio'n gyson â'n cynllun iaith Gymraeg, ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac eraill i fod yn ymatebol ac yn wybodus wrth i ni ddatblygu ein dull o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein gwaith yn y maes hwn, a bydd ar gael i gwsmeriaid drwy drafodaeth gyhoeddus mewn sesiwn o'r Cyngor yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar ein gwefan, yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol.

Gweithgarwch diweddar

Ym mis Hydref 2019, rhoddodd y tîm Gweithredol ddull arwain newydd ar waith o ymgysylltu ag anghenion pobl ledled pedair gwlad y DU a'u deall drwy neilltuo cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer pob gwlad i gryfhau cysylltiadau, amlygrwydd a threfniadau gweithio mewn partneriaeth. Ein Cyfarwyddwr Rheoleiddio Proffesiynol, Emma Broadbent, yw cyfarwyddwr arweiniol Cymru. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r tîm Gweithredol i gael darlun cliriach o faterion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Ers ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol hwn, mae Emma wedi cwrdd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn, cynrychiolwyr o Gymru o'r Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Bydwagedd a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru.

Yn ogystal ag ymweld â gwasanaethau yng Nghymru, mae Emma wedi mynd i gyfarfodydd allweddol fel cyfarfod Bord Gron GMC Cymru ar Weithio a Sicrhau Newid Gyda'n Gilydd, ac wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru, gan gynnwys ar gyfer ein safonau Bydwagedd yn y Dyfodol. Aeth aelodau o'n tîm Cofrestru yn y DU hefyd i Brifysgol De Cymru ym mis Chwefror 2020 i wneud cyflwyniad i fyfyrwyr nyrsio am rôl yr NMC.

Ym mis Gorffennaf 2019 dechreuwyd ein gwaith ymgysylltu allanol ar ein [strategaeth gorfforaethol 2020-2025](#) newydd. Roedd anghenion siaradwyr Cymraeg yn y rhaglen waith hon yn cael eu croesawu, gan gynnwys drwy:

- Cafodd ein dogfen ymgynghori ar ddatblygu ein strategaeth newydd ei chyfieithu i'r Gymraeg a'i rhoi ar ein gwefan.
- Fe wnaethom ofyn i'r cwmni ymchwil annibynnol a gontractiwyd gennym i gynnal ein harolwg ymgynghori i sicrhau bod fersiwn Gymraeg o'r arolwg ar gael.
- Pan gynhaliwyd gweithdy ymgynghori yng Nghaerdydd, cynigiwyd cyfle ymlaen llaw i bawb a gofrestrodd ar gyfer y digwyddiad i gael cyfieithydd Cymraeg (ni wnaeth neb fanteisio ar y cynnig).
- Drwy gydol y gwaith o ddatblygu ein strategaeth rydym wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith i Brif Swyddog Nyrsio Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru, ac wedi ystyried unrhyw oblygiadau posibl i Gymru.
- Cafodd fersiwn derfynol y strategaeth ei chyfieithu i'r Gymraeg a'i chyhoeddi ar ein gwefan.

Yn y flwyddyn adrodd, gwnaethom hefyd hyrwyddo'r angen i'n gweithwyr ddod yn fwy cymwys yn eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy:

- Annog gweithwyr i gwblhau ein modiwl e-ddysgu am y Gymraeg, sy'n rhoi cefndir a hanes yr iaith, yn tynnu sylw at y defnydd presennol ac yn pwysleisio dyletswydd gyfreithiol cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd yn y cyfrwng hwn.
- Cynnal cystadleuaeth pobi cacennau cri ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi gyda gohebiaeth gysylltiedig a oedd yn berthnasol i'n cynllun iaith Gymraeg. Mae'r digwyddiad hwn yn prysur ddod yn draddodiad blynyddol i'r NMC, ac yn un sy'n cael llawer o groeso.

Mae ystyriaethau o ran y Gymraeg wedi'u hymgorffori yn ein proses datblygu Safonau Addysg. Mae gennym ddogfennau iaith Gymraeg yng nghyfnodau allweddol yr ymgynghoriad, megis safonau drafft a chwestiynau ymgynghori, ac rydym yn cynnig y dewis o ymateb i'n hymgyngoriadau yn Gymraeg. Mae adborth a thystiolaeth ar yr effaith ar siaradwyr Cymraeg hefyd yn cael eu cynnwys fel rhan o'n gwaith asesu'r effaith ar gydraddoldeb ar ein safonau. Yn ystod y cyfnod adrodd dilynwyd y dull hwn yn ystod ein hadolygiad o'n safonau [Dychwelyd i ymarfer](#), ein Safonau Hyfedredd newydd ar gyfer [bydwagedd](#), yn ogystal â'r cam cynllunio ar gyfer adolygu ein safonau addysg [ar ôl cofrestru](#).

Ystyriwyd yr iaith Gymraeg ac ymgysylltu yn ofalus hefyd wrth ddatblygu ein hymateb i Covid-19, gan gynnwys cydweithio â Phrif Swyddog Nyrso Cymru i sicrhau bod ein dull gweithredu yn cyd-fynd â'i weithgarwch. Gwnaethom sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu am safonau ein [rhaglen addysg frys](#) yn cael eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg at addysgwyr yng Nghymru ac yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ar gyfer myfyrwyr ar ein canolfan we Covid-19 ar-lein. Cafodd dogfennau allweddol eraill, fel ein canllaw ar [ail-ddilysu yn ystod Covid-19](#), eu cyhoeddi yn Gymraeg ar ein gwefan.

Safonau iaith Gymraeg

Ar y cyd â'r rheoleiddwyr proffesiynol eraill, rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ei safonau iaith Gymraeg newydd. Er bod yr ymgynghoriad presennol y tu allan i'r cyfnod adrodd hwn, mae'r gweithgaredd hwn wedi rhoi cyfle i ni adolygu sut rydym yn cydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg presennol a deall yn well sut rydym yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd.

Ym mis Medi 2019 roedd [ein hymateb](#) yn glir i Ymgynghoriad Iechyd, Addysg a Gwella Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar 'Cymru Iachach: Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' sef ein bod yn credu y dylai pobl ar ein cofrestr, pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r cyhoedd allu defnyddio'r Gymraeg sut bynnag y dymunant.

Rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno ein hymateb i Lywodraeth Cymru ar y safonau arfaethedig sy'n debygol o ddisodli ein cynllun iaith Gymraeg presennol, a mapio sut y gallwn fodloni'r gofynion newydd yn y ffordd fwyaf effeithiol ar draws y sefydliad.

Blaenoriaeth strategol

Yn ein Strategaeth newydd ar gyfer 2020-2025, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, gwnaethom yn glir 'bod angen cysylltiadau cryf arnom ar draws pedair gwlad y DU a gwerthfawrogiad o'r cyd-destunau gwleidyddol, darparu gwasanaethau a chynllunio'r gweithlu amrywiol', ac fe wnaethom ymrwmo i 'adolygu a datblygu ein presenoldeb' yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

Bydd ein fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad newydd cysylltiedig yn sail i'n dull o gydymffurfio â'r Gymraeg, fel y nodir isod:

- **Teg** – byddwn yn sicrhau y bydd pobl sy'n rhyngweithio â'n gwasanaethau yn cael cyfleoedd teg i gael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg, a byddwn yn gallu ymddiried yn ein hymrwymiad i'n cynllun iaith Gymraeg.
- **Caredig** – rydym yn gwerthfawrogi pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, a byddwn yn barchus wrth ddelio â cheisiadau am y Gymraeg. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys ac yn

hyderus i ymgysylltu â ni yn Gymraeg.

- **Cydweithredol** – byddwn yn buddsoddi yn ein perthynas bresennol, gan gynnwys gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac yn ymgysylltu â chymunedau ehangach Cymru, gan gydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.
- **Uchelgeisiol** – byddwn yn agored i ffyrdd newydd o fodloni ein gofynion o ran y Gymraeg, a byddwn bob amser yn anelu at wneud ein gorau dros siaradwyr Cymraeg.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y canlynol:

- 1 Codi ymwybyddiaeth o anghenion siaradwyr Cymraeg, gan feithrin cymhwysedd a hyder gweithwyr NMC i ymateb yn effeithiol i'r anghenion hyn.
- 2 Adeiladu ar ein hymgysylltiad allanol, gan gynnwys adolygu a datblygu ein presenoldeb yng Nghymru, yn unol â'n nodau strategol.
- 3 Adolygu ein cydymffurfiaeth â'r Gymraeg, ymateb i Lywodraeth Cymru ar ofynion newydd arfaethedig, a mapio ein trefniadau llywodraethu mewnol a'n dull newydd o fodloni safonau.

Atodiad 1: Adroddiad cryno ar roi'r cynllun iaith Gymraeg ar waith rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani	Ein gwaith
Asesiad o'r effaith ar bolisi	
<p>Nifer a chanran y polisiâu (gan gynnwys y rhai a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau y byddai'r polisi'n eu cael ar ddefnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>Nid ydym wedi cynnal dadansoddiadau effaith ar unrhyw nifer sylweddol o bolisiâu yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Yn ystod y cyfnod 2018-19 roeddem yng ngham dadansoddi nifer o'n ffrydiau gwaith rheoleiddiol ac felly fe wnaethom gynnal nifer o asesiadau effaith ar y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Daeth y rhan fwyaf o'r gwaith hwn i ben yn 2019-20.</p> <p>Yr unig asesiad effaith a wnaethom yn ystod y cyfnod hwn oedd yng nghyswllt ein gofyniad statudol ledled y DU i fod â gwybodaeth am y Saesneg er mwyn cadw cofrestriad. Roedd hyn yn golygu cyflwyno mân newid yn ein canllawiau Saesneg.</p> <p>Diweddarwyd hefyd yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer y gwaith a wnaethpwyd ar ein strategaeth Addasrwydd i Ymarfer 2018 yn ystod 2019-20. Unwaith eto, nid oedd hyn yn dangos unrhyw effaith negyddol.</p> <p>Mae gan bob polisi asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n cynnwys ystyried yr effeithiau y mae'r polisi'n eu cael ar ddefnyddio'r Gymraeg. Cyhoeddir dogfennau am safonau'r Saesneg ochr yn ochr â chyfieithiadau Cymraeg.</p>
<p>Enghraifft o asesiad y bernir ei fod yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a manylion am sut y cafodd y polisi ei ddiwygio o ganlyniad.</p>	<p>Nid ydym wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad effaith a arweiniodd at ddiwygio polisi arfaethedig neu bolisi sy'n bodoli eisoes yn ystod y cyfnod adrodd hwn.</p>
Cyhoeddiadau	
<p>Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd</p>	<p>Mae gennym 695 o gyhoeddiadau ar y wefan.</p>
<p>Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg</p>	<p>Mae 95 o ddogfennau Cymraeg ar y wefan yn gan gynnwys adroddiadau blynyddol, dogfennau safonau, dogfennau ail-ddilysu a dogfennau safonau addysg.</p>

	<p>Mae hyn yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg sy'n dweud y bydd gwybodaeth wedi'i hanelu at gleifion ac aelodau o'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyhoeddir safonau, canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall sydd wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol ac nid yn uniongyrchol at y cyhoedd yn Saesneg.</p> <p>Fodd bynnag, rydym yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais. Yn ogystal â gofynion ein cynllun rydym yn cyfieithu deunyddiau pan fyddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, er enghraifft ein deunyddiau ymgynghori a'n dogfennau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru.</p>
Cwynion	
Nifer yr holl gwynion a dderbyniwyd am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru	Cawsom 228 o atgyfeiriadau yng nghyswllt nyrs gofrestrdedig, bydwaig neu nyrsys cyswllt gyda chyfeiriad cofrestrdedig yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.
Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru	Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 cawsom gyfanswm o 5,704 o atgyfeiriadau newydd. Roedd 228 o'r rhain yn ymwneud ag ymarferwyr yr oedd eu cyfeiriad cartref cofrestrdedig yng Nghymru. Ar ôl edrych ar ein cofnodion, nid ydym wedi cael unrhyw atgyfeiriadau newydd yn Gymraeg.
Roedd nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i gynllun iaith Gymraeg	Ni dderbyniodd y tîm Ymholiadau a Chwynion Cwsmeriaid unrhyw gwynion corfforaethol yng nghyswllt cydymffurfiaeth yr NMC â'r cynllun iaith Gymraeg yng nghyfnod adrodd 2019 - 2020.
Gwefan	
Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg	<p>Llai nag un y cant.</p> <p>Mae gennym un brif dudalen gyflwyno yn Gymraeg ar y wefan, sydd ar gael drwy'r botwm 'Cymraeg' yn y bar llywio. Byddwn yn diweddarau'r dudalen hon er mwyn iddi gyd-fynd â'n strategaeth newydd. Ym mlwyddyn ariannol 2019/2020 ymwelwyd â'r dudalen honno 2,979 o weithiau.</p> <p>https://www.nmc.org.uk/about-us/our-role/ein-rol/</p>

	<p>Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg sy'n dweud y bydd gwybodaeth wedi'i hanelu at gleifion ac aelodau o'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym hefyd yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais.</p>
<p>Tystiolaeth yn ymwneud ag unrhyw gynlluniau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar y wefan</p>	<p>Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein safonau hygyrchedd, a fydd hefyd yn edrych ar ddarpariaeth cynnwys Cymraeg ar ein gwefan. Mae oedi cyn yr adolygiad hwn oherwydd Covid-19.</p>
<p>Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys, diweddariadau a chynnwys newydd presennol yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn 2018-19)</p>	<p>Pryd bynnag y caiff cyhoeddiad ei lunio, mae'r tîm cyfathrebu corfforaethol yn gwneud asesiad i weld a oes angen llunio fersiwn Gymraeg hefyd ar gyfer y cyhoeddiad penodol hwnnw.</p>
<p>Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg</p>	
<p>Gwybodaeth am dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn y gwasanaethau a ddefnyddir gan y cyhoedd.</p>	<p>Mae tudalen ar ein gwefan wedi'i neilltuo ar gyfer rhoi manylion ein cynllun iaith Gymraeg, gan gynnwys y gwasanaethau a gynigiwn. Gweler hefyd yr wybodaeth uchod am ein dogfennau a'n cyhoeddiadau Cymraeg.</p>
<p>Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. drwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol/darpar</p>	<p>Er nad ydym wedi cael unrhyw adborth gan gwsmeriaid yn sôn am y Gymraeg, rydym yn asesu profiad defnyddwyr presennol drwy estyn gwahoddiad i'n harolygon adborth cwsmeriaid. Mae cwsmeriaid yn rhoi sgôr i'w boddhad ac yn cael cyfle i adael sylwadau ychwanegol, fel adborth ar ohebiaeth Gymraeg. Ceir dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r ymatebion mewn adolygiadau boddhad cwsmeriaid, sy'n ffurfio'r sylfaen i wella profiad ein cwsmer.</p>

<p>ddefnyddwyr gwasanaeth)</p>	<p>Ar ben hynny, rydym yn defnyddio'r adborth a gawsom o ymatebion i'r ymgynghoriad gan gyrrff sy'n cynrychioli siaradwyr Cymraeg i ystyried ansawdd gwasanaethau ein sefydliad ar gyfer siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae ein harweinydd gweithredol ar gyfer ymgysylltu â Chymru wedi rhoi adborth gan randdeiliaid drwy gydol y flwyddyn, a fydd wedi'i ychwanegu at ein hystyriaeth o ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg.</p>
<p>Achosion addaswydd i ymarfer</p>	
<p>Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf cynhaliwyd 80 o ddigwyddiadau Pwyllgor FtP (ystyriwyd 113 o achosion yn y digwyddiadau hyn), 49 o ddigwyddiadau'r Pwyllgor Ymchwilio (ystyriwyd 132 o achosion yn y digwyddiadau hyn) a 5 gwrandawiad Apêl Cofrestru.</p>
<p>Nifer y gwrandawiadau lle gwnaethpwyd cais gan y tyst i siarad Cymraeg</p>	<p>Ni wnaethpwyd unrhyw geisiadau gan dyst i siarad Cymraeg, a dim ceisiadau gan bartïon sy'n gwrando i siarad Cymraeg mewn gwrandawiad</p> <p>Nid ydym wedi derbyn cais am gyfieithydd Cymraeg mewn gwrandawiad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.</p>
<p>Nifer y gwrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.</p>	<p>Ni chafwyd unrhyw wrandawiad lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.</p>
<p>Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith</p>	
<p>Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. newydd ers 1 Ebrill 2019) a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.</p>	<p>Mae 128 o ddechreuwyd newydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ers mis Ionawr 2019 (64.6%).</p>
<p>Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r</p>	<p>Mae 193 o gyflogeion yn yr NMC wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (22.7%), ynghyd ag 20 arall wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Nid yw'r e-ddysgu'n orfodol, ond rydym wedi'i hyrwyddo ar Ddydd Gŵyl Dewi, yn ogystal ag ar ein platfform cyfryngau cymdeithasol mewnol,</p>

Gymraeg ers cyflwyno'r hyfforddiant.	Workplace, ac yng nghyfarfodydd ein Grŵp Arweinyddiaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
Hunanreoleiddio	
Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w alluogi i hunanreoleiddio'n effeithiol.	<p>Ar y cyd â'r rheoleiddwyr proffesiynol eraill, rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ei safonau iaith Gymraeg newydd. Dyma'r safonau a fydd yn disodli ein cynllun iaith Gymraeg presennol, a disgwylir iddynt ddod i rym yn 2021.</p> <p>Ymgynghorir ar y safonau drafft ar hyn o bryd a daw'r ymgynghoriad i ben ar 2 Hydref.</p> <p>Er ei fod ar y cam ymgynghori ar hyn o bryd, mae'r adolygiad parhaus rydym yn ei gynnal ar draws y sefydliad ar hyn o bryd yn hollbwysig o ran deall yr hyn y bydd yn rhaid i ni ei wneud fel sefydliad i fodloni'r safonau newydd, ac anghenion siaradwyr Cymraeg. Bydd hefyd yn sicrhau y byddwn yn y sefyllfa orau bosibl i weithredu'r safonau newydd pan gânt eu cyflwyno.</p> <p>Ar ben hynny, yn 2019/20 gwnaethom ymateb i'r ymgynghoriad canlynol sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a chynnwys adran ar y cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg. Dyma'r ymgynghoriad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghoriad Iechyd, Addysg a Gwella Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' (Medi 2019) Fe wnaethom nodi ein bod yn credu y dylai cofrestrdyddion, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, yn ogystal â'r cyhoedd allu defnyddio'r Gymraeg sut bynnag y dymunant. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r egwyddor y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a nodir hyn yn ein Cynllun Iaith Gymraeg. Gellir gweld ein hymateb yma: https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/consultations/nmc-responses/2019/nmc-response-to-heiw-and-scw-workforce-consultation-september-2019.pdf